Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 6.30 o'r gloch, nos Lun, **10 Hydref 2016** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-10/16: Presennol
Cadeirydd Cyng. R Cadwalader
Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Elizabeth Regan; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. R T Price; Cyng. W A Evans; Cyng. Phil Jones. Clerc – Eilir Ann Daniels.

Croesawyd Dr Catrin Jones i'r cyfarfod – yr oedd newydd gael ei hapwyntio fel Clerc, a bydd yn dechrau yn y swydd ar 1 Tachwedd 2016.

2-10/16: Ymddiheuriadau
Cyng. Henry Jones, Eirwyn Williams, Dafydd Lloyd, Elizabeth George, Sian Williams

3-10/16: Datgan diddordeb
Cyng. Elizabeth Regan (eitem 14 – llyfrgell Criccieth)

4-10/16: Siaradwr Gwadd – Cynlluniau gweithredu cymunedol
Croesawyd Cerys Thomas (Resources for Change, cyn swyddog datblygu Unllais Cymru) i'r cyfarfod a rhoddodd gyflwyniad ar gynlluniau gweithredu, gan amlinellu enghreifftiau. Nododd y manteision o greu cynlluniau tebyg yn enwedig yn yr hinsawdd bresennol o doriadau gan fod cynghorau cymunedol yn teimlo dan bwysau i grymryd cyfrifoldeb dros wasanaethau. Gydag hyn mewn golwg, tanlinellodd bod cynlluniau gweithredu yn gymorth i gynghorau i flaenoriaethu ac i ddod i benderfyniadau mewn modd strategol. Yr oedd yna fanteision hefyd i lunio cynlluniau o'r fath cyn dechrau ar gyfres o brosiectau yn y gymuned gan y gall strategaeth berthnasol gefnogi cais am grant.

Eglurodd bod yna wahanol lefelau o gynlluniau gweithredu, yn ddibynnol ar anghenion y gymuned, a oedd yn amrywio o gynlluniau sy'n cwmpasu prosiectau a glustnodwyd gan y Cyngor Tref yn unig, i gynlluniau sydd wedi eu selio ar ymgynghoriadau cynhwysfawr gyda'r gymuned ei hun. Nod ymgynghoriadau gyda'r gymuned oedd i gysylltu â gwahanol grwpiau yn y gymuned ac i wneud hynny mewn gwahanol ffyrdd – e.e. cyfarfod yn uniongyrchol â gwahanol grwpiau, cyfweliadau/holiaduron mewn siopau, cyswllt ar-lein (tudalen Facebook). Gall y broses gymryd rhyw dri neu bedwar mis i'w gyflawni, er bod y broses ar gyfer cynlluniau mwy cynhwysfawr yn medru cymryd i fyny at chwech mis.

Os y bydd y Cyngor am gomisiynu ymgynghorydd i gynorthwyo gyda'r broses, awgrymodd y dylid cynnwys sefydlu pwyllgor llywio yn y brîff, ac yna i amlinellu'r brîff hwnnw yn gyfan yn y tendr. Yr oedd ganddi restr o ymgynghorwyr a oedd yn gweithio'n lleol a bydd yn ei danfon i'r Clerc.

Gwnaeth y Cadeirydd ddiolch i Mrs Thomas am ei chyflwyniad.

Ar ôl y cyflwyniad, trafodwyd rhai o'r prosiectau a glustnodwyd yn y gorffennol gan y Cyngor Tref – roedd yna restr wedi ei llunio rhyw dair blynedd yn ôl gan yr is-bwyllgor mwynderau.

Penderfynwyd y dylai'r aelodau a wnaeth gyfarfod dair blynedd yn ôl i gyflwyno'r prosiectau hynny yn y cyfarfod nesaf. Mae'n bosib y gellir cwblhau rhai o'r prosiectau llai cyn diwedd Mawrth.

Penderfynwyd i roi cynllun gweithredu/prosiectau ar raglen mis Tachwedd er mwyn dechrau symud y broses yma a'r prosiectau hyn ymlaen.

5-10/16: Cadarnhau cofnodion mis Medi
Cadarnhawyd a llofnodwyd y cyfrifon yn unol â'r gyfraith.

6-10/16: Eitemau brys ac er gwybodaeth

- Adroddodd y Cadeirydd y bydd Croeso Dolig yn cael ei gynnal eleni ar 1 Rhagfyr, ac mae Dilwyn Morgan a fydd yn troi'r goleuadau ymlaen.
- Cysgodfannau: Nid oedd Cyngor Gwynedd eto wedi trwsio'r fainc a'r gwaith coed, felly nid oedd wedi bod yn bosib i'w peintio hyd yma.

7-10/16: Gohebiaeth

a. Comisiwn Ffiniau i Gymru: ymgynghoriad ar newidiadau i'r etholaethau seneddol
Derbyniwyd yr wybodaeth.

b. BT – cau ciosgs ffôn
Derbyniwyd lythyr oddi wrth BT yn rhestru'r ciosgs oedd ar fin cau oherwydd diffyg defnydd. Roedd un ohonynt o fewn ffiniau Cyngor Tref, sef yn stâd Ty'n Rhos. Gan fod cyn lleied o ddefnydd ar y ciosg hwn, nid oedd yr aelodau yn gweld bod modd gwrthwynebu penderfyniad BT.

8-10/16: Ceisiadau Cynllunio

C16/0967/35/LL
Cais ar gyfer darparu grisiau allanol. 66-68 Stryd Fawr, LL52 0HB

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

9-10/16: Adroddiad ar Archwiliad Cyfrifon 2016-17

Roedd adroddiad yr archwilwyr allanol (BDO o Southampton) bellach wedi cyrraedd. Nodwyd y Clerc yr argymhellion canlynol:

- Dylid cadarnhau penodiad yr archwilydd mewnol cyn gynted ag sy'n bosib, ac i ddanfon llythyr penodi ato ar gyfer yr archwiliad nesaf yn amlinellu disgwyliadau'r Cyngor. Os mai'r un archwilydd sy'n cael ei gadw mewn blynyddoedd i ddod, dylid sicrhau bod y penodiad yn cael ei ail-gadarnhau o bryd i'w gilydd.
- Dylid ystyried lefel y gronfa ariannol wrth-gefn yn fanwl wrth benderfynu ar gyllideb a phraesept 2017-2018.
- Rhaid monitro cyllideb y flwyddyn yn rheolaidd "o leiaf bob chwarter", a sichrau bod yr adolygiad hwn yn cael ei gofnodi.

10-10/16: Apwyntio archwilydd mewnol ar gyfer cyfrifon 2016-17 a phennu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yr is-bwyllgor cyllid

Penderfynwyd yn unfrydol i ail-apwyntio John Roberts, Caernarfon, fel archwilydd mewnol ar gyfer cyfrifon 2016-17 a gofynnwyd i'r Clerc i'w hysbysu trwy lythyr.

Penderfynwyd i drefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor cyllid ar 31 Hydref 2016 i fonitro'r gyllideb ac i drafod cyllideb 2017-18 yn barod i'w gyflwyno yn ystod cyfarfod mis Tachwedd o'r Cyngor Tref. Bydd y cyfarfod yma hefyd yn gyfle i bennu dyddiadau ar gyfer gweddill cyfarfodydd yr is-bwyllgor.

11-10/16: Llwybrau trwy'r parc – adborth o'r cyfarfod maes

Cyfarfu aelodau o'r Cyngor â Steffan Jones, Uwch Reolwr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Gwynedd, ar 16 Medi i drafod y llwybrau a'r broblem o ddŵr yn crynhoi ar y llwybr o stâd Penaber i'r parc. Trafodwyd y sefyllfa parthed y dŵr a chytunodd Mr Jones i ddanfon staff i wneud arolwg o'r safle yr wythnos ganlynol er mwyn awgrymu datrusiad i'r sefyllfa.

Nid oedd Mr Jones yn teimlo bod cyflwr gweddill y llwybrau drwy'r parc yn ddigon gwael i gyfiawnhau eu hail-arwynebu.

Trafodwyd cyflwr perthi'r parc a'r amserlen torri gwair yn ystod yr un cyfarfod maes, gan fod y tyfiant i weld yn flêr iawn eleni a'r gwaith yn y parc wedi cael ei adael yn ei hanner. Cynigiodd rhai o'r aelodau y dylai'r Cyngor Tref drefnu'r gwaith yn y dyfodol neu i gyfrannu at doriadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Cytunodd Mr Jones felly i ddanfon yr amserlen waith at y Clerc er mwyn i'r Cyngor allu ystyried hyn yn y cyfarfod nesaf.

Yn dilyn y cyfarfod maes, ysgrifennodd y Clerc at y swyddog i'w atgoffa i ddanfon canlyniadau arolwg llwybr Penaber a'r amserlen torri gwair at y Cyngor Tref. Ni dderbyniwyd ymateb. Gwnaeth y Clerc ail-gysylltu ar ôl hynny i holi os oedd yr arolwg wedi cael ei wneud ac os oedd modd derbyn yr amserlen erbyn 10 Hydref, ond ni wnaeth dderbyn ymateb.

Penderfyniad: Oherwydd y pryder am y diffyg ymateb, a gan nad oedd yn glir os oedd yr arolwg wedi ei gyflawni yn unol â'r hyn a gytunwyd, gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu at Gwyn Morris Jones, Pennaeth yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, am y mater, ac i ofyn i'r aelod lleol i godi'r mater gyda'r adran.

12-10/16: Torri gwair

Roedd yr aelodau yn gytun bod angen torri'r gwair yn amlach oherwydd bod safon y torri wedi bod mor wael eleni (gweler pwynt 11-10/16 uchod). Roedd y Cyngor yn awyddus iawn i ystyried datrusiad i hyn cyn gynted ag sy'n bosibl: e.e. y Cyngor Tref i gyflogi gweithwyr i wneud y gwaith i gyd; i dalu am doriadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn; neu i gyd-weithio gyda chynghorau lleol eraill i gyflogi gweithiwr. Roedd yna deimlad bod angen yr amserlen torri gwair wrth law yn gyntaf cyn medru dod i benderfyniad iawn ac i lunio cynllun/tendr pendant.

Penderfyniad:

- I'r Clerc i roi pwysau ymhellach ar yr adran berthnasol i dderbyn yr amserlen (gw. pwynt 11-10).
- I roi'r eitem yma ar raglen mis Tachwedd.
- Cytunodd y Cadeirydd i ddarparu'r Cyngor â mapiau perthnasol.

13-10/16: Parcio a thrafnidiaeth yng Nghriccieth

Yr oedd Iwan ap Trefor, Uwch Peiriannydd Traffig Cyngor Gwynedd, wedi derbyn y gwahoddiad i fynychu cyfarfod o'r Cyngor Tref – ar 12 Rhagfyr – er mwyn trafod y problemau parcio a thrafnidiaeth.

Dosbarthwyd y cynllun ar gyfer y llinellau melyn dwbl arfaethedig ar gyfer y ffordd ger gwesty Dylan's a'r groesfan trên, Morannedd.
Penderfyniad: I'r Clerc i gadarnhau gyda'r adran berthnasol bod yr aelodau yn fodlon â'r cynllun llinellau melyn dwbl, ond i holi os y bydd y llwybr coch i gerddwyr yn cael ei osod hefyd, fel a drafodwyd yn y cyfarfod maes yn gynharach yn y flwyddyn.

14-10/16: Llyfrgell Criccieth ac offer a gedwir yn yr adeilad presennol

Nid oedd unrhyw wybodaeth bellach wedi cyrraedd parthed symud y llyfrgell i Encil y Coed na dyfodol a sefyllfa gyfreithiol yr adeilad presennol. Wrth drafod cyllideb 2017-18, awgrymodd y Cadeirydd y bydd angen ystyried cyfrannu tuag at ddeunydd atodol, arwydd a.y.y.b. unwaith y bydd y llyfrgell yn ad-leoli.

Roedd angen cael mynediad i'r seler ac i restru'r hyn oll sydd o eiddo'r Cyngor Tref yn yr adeilad, gan gynnwys y byrddau biliards.

Penderfyniad:

- I'r Clerc i wneud ymchwiliadau parthed agor y seler ac i drefnu mynediad.
- I roi'r mater ar raglen mis Tachwedd

15-10/16: Llwybrau cyhoeddus (llwybr 11)

Nid oedd yna wybodaeth bellach wedi dod i law.

16-10/16: Derbyniadau

Dim

17-10/16: Taliadau

• Cyllid y Wlad (PAYE) Medi	£76.80	(siec 101023)
• Cyflog y Clerc (Medi)	£306.54	(siec 101024)
• Atkin Groundworks (barbio mynwent 5ed a 6ed toriad)	£234.00	(siec 101025)
• Swyddfa Bost Cyf (stampiau)	£64.00	(siec 101026)

Rhoddwyd ganiatad i'r clerc i dalu'r biliau.

18-10/16: Cydnabyddiaeth i'r Clerc

Gan mai hwn oedd cyfarfod llawn olaf y Clerc presennol, gwnaeth Cyng. Robert Price ddatgan gwerthfawrogiad y Cyngor am ei gwaith a'i gwasanaeth da yn ystod ei chyfnod yn y swydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 y. h.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ar **nos Lun, 14 Tachwedd 2016, am 7.00 o'r gloch**

** Bydd y rhaglen yma yn cau **5 Tachwedd 2016** **